# DINASOEDD A CHYMUNEDAU SY'N DDA I BLANT

## Adroddiad canlyniadau asesu cydnabyddiaeth: Cyngor Caerdydd

Rhan o Fenter Fyd-eang UNICEF

Child Friendly Cities Initiative

Child Friendly Cities & Communities

UNITED KINGDOM

unicef

# CYFLWYNIAD

**Mae Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant yn rhaglen gan Bwyllgor y DU UNICEF (UNICEF UK) sy'n gweithio gyda chynghorau i roi hawliau plant ar waith.**

Nod y rhaglen yw cefnogi cynghorau a'u partneriaid i ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau plant ar draws strategaeth leol, polisi, darparu gwasanaethau a mannau cyhoeddus.

Dros dair i bum mlynedd, mae eu partneriaid lleol, a phlant a phobl ifanc, yn gweithio gyda'i gilydd ar daith uchelgeisiol tuag at gydnabyddiaeth ryngwladol fel Dinas neu Gymuned sy'n Dda i Blant UNICEF.

Mae Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant yn rhan o Fenter Dinasoedd Byd-eang sy'n Dda i Blant UNICEF, sy'n cyrraedd dros 30 miliwn o blant mewn bron i 50 o wledydd.

## Crynodeb

Daeth Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant fel y'i cydnabuwyd gan UNICEF yn 2023, gan gwmpasu'r cyfnod tan 2026. Dros y 3 blynedd diwethaf, mae Caerdydd wedi parhau i gyflwyno rhaglen sy'n datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer hyrwyddo hawliau plant.

Yn dilyn asesiad o gynnydd y ddinas, mae UNICEF UK yn rhoi **Cydnabyddiaeth lawn i Gaerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF 2026-29**

2026–2029 Child Friendly City unicef UNITED KINGDOM

2026–2029 Dinas Sy'n Dda I Blant unicef UNITED KINGDOM

# YNGLŶN Â CHYDNABYDDIAETH

**Cydnabyddiaeth yw cam olaf taith Dinasoedd a Chymunedau sy’n Dda i Blant.**

Mae cydnabyddiaeth yn golygu bod UNICEF yn **cydnabod** yn gyhoeddus bod cyngor a'i bartneriaid lleol wedi cymryd camau sylweddol a chynaliadwy tuag at hyrwyddo hawliau dynol plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn eu cymuned. **Mae statws ‘sy'n Dda i Blant’ yn cydnabod cynnydd, nid perffeithrwydd.**

Mae dinasoedd neu gymunedau yn dod yn gymwys i gael cydnabyddiaeth ar ôl rhoi eu cynllun gweithredu Dinasoedd a Chymunedau sy’n Dda i Blant ar waith am o leiaf 2 flynedd. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi sut bydd newid yn cael ei gyflawni ar draws chwe 'bathodyn' thematig, neu feysydd blaenoriaeth, sy'n cael eu dewis mewn cydweithrediad â phlant a phobl ifanc.

Gofynnir i gynghorau a'u partneriaid ddangos, trwy dystiolaeth berthnasol o ansawdd da, sut maen nhw wedi cyflawni'r uchelgais a nodir yn eu cynllun gweithredu Dinasoedd a Chymunedau sy’n Dda i Blant, yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu, a sut maen nhw’n bwriadu bwrw ymlaen â'r ymrwymiad i wireddu hawliau plant ledled y ddinas neu'r gymuned unwaith y bydd statws 'sy’n Dda i Blant' wedi'i gyflawni.

**Ar ddiwedd eu taith ar y rhaglen, gofynnir i ddinasoedd a chymunedau:**

- Gyflwyno dogfennau sy'n nodi eu hachos dros gydnabyddiaeth.
- Cyflwyno tystiolaeth fanwl yn erbyn y canlyniadau a'r dangosyddion yn eu cynllun gweithredu Dinasoedd a Chymunedau sy’n Dda i Blant.
- Cynnal asesiad byw, lle mae Panel Cynghori annibynnol Cydnabyddiaeth Dinasoedd a Chymunedau sy’n Dda i Blant UNICEF UK yn cynnal trafodaethau archwiliol gyda chynrychiolwyr allweddol o'r ardal, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

**Mae pedwar canlyniad asesu posibl:**

| | |
|---|---|
| **Cydnabyddiaeth: Statws 'sy’n Dda i Blant'** | Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd cynaliadwy ar draws eu holl feysydd blaenoriaeth ac wedi gosod cynllun cadarn ar gyfer adeiladu ar y cynnydd hwn. Mae statws sy’n Dda i Blant yn para am dair blynedd. |
| **Cydnabyddiaeth Amodol** | Mae'n ofynnol i'r cyngor a'i bartneriaid gwblhau camau gweithredu, ehangu eu huchelgeisiau cynaliadwyedd, mynd i'r afael â bylchau neu gyflwyno tystiolaeth sydd ar goll o fewn amserlen y cytunwyd arni cyn cael eu cydnabod yn swyddogol ac yn gyhoeddus. |
| **Asesiad wedi'i Atal Dros Dro** | Mae tystiolaeth ar goll neu'n anghyflawn, ond mae achos addawol wedi'i gyflwyno. Bydd yr asesiad yn cael ei ailadrodd yn nes ymlaen. |
| **Dim Cydnabyddiaeth** | Mae ansawdd y dystiolaeth yn wael, nid yw’r cynllun cynaliadwyedd yn argyhoeddiadol, nid yw’r ymrwymiad lleol yn argyhoeddiadol. |

## Fframwaith Asesu Cydnabyddiaeth

Mae asesiad o dystiolaeth, cynnydd ac effaith yn cael ei gynnal gan UNICEF UK ac mae Panel Cynghori annibynnol Cydnabod Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant yn craffu arno. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw sylfaen fframwaith asesu Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant. Mae'n cael ei wireddu trwy saith egwyddor **dull sy'n seiliedig ar hawliau plant:**

- Urddas
- Tryloywder ac Atebolrwydd
- Lles Pennaf y Plentyn
- Peidio â Gwahaniaethu
- Cyfranogiad
- Bywyd, goroesiad a datblygiad
- Cyd-gysylltedd a Chyfanrwydd.

Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan feini prawf gofynnol y Fenter fyd-eang Dinasoedd sy'n Dda i Blant: **canlyniadau mesuradwy ar gyfer plant**, gan gynnwys data perthnasol ac arwyddocaol o safon; **cyfranogiad ystyrlon a chynhwysol gan blant**; ac **ymroddiad i ddileu gwahaniaethu.**

Yn olaf, mae'r canlyniadau a'r dangosyddion penodol a nodir yng nghynllun gweithredu Dinasoedd a Chymunedau sy'n dda i Blant y ddinas yn erbyn 'bathodynnau' a ddewiswyd yn lleol yn ganolog i'r fframwaith ac yn rhai y mae cynnydd yn cael ei asesu yn eu herbyn. Ar ôl eu cydnabod, mae Dinasoedd a Chymunedau yn sefydlu Cynllun Cynaliadwyedd 3 blynedd, sy'n datblygu ac yn ymgorffori eu dull gweithredu. Mae cyflawniad Caerdydd o 2023-26 wedi cael ei asesu yn erbyn eu Cynllun Cynaliadwyedd. Trefnwyd y Cynllun hwn yn ôl pedair thema: Addysg Hawliau Plant; Lle; Cyfranogiad; a Chyfartal ac yn cael eu Cynnwys

Mae'r Fframwaith Asesu Cydnabyddiaeth wedi cael ei ddefnyddio i asesu cyflawni'r Cynllun Cynaliadwyedd, gan ddefnyddio saith egwyddor dull sy'n seiliedig ar hawliau plant a meini prawf gofynnol y Fenter Fyd-eang Dinasoedd sy'n Dda i Blant.

# YNGLŶN Â'R BARTNERIAETH

**Ymunodd Caerdydd yn wreiddiol â'r rhaglen Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant yn 2017** fel rhan o garfan arloesol o ddinasoedd a chymunedau. Eu meysydd bathodyn blaenoriaeth a ddewiswyd gyda phlant a phobl ifanc oedd Cydweithredu ac Arweinyddiaeth, Diwylliant, Cyfathrebu, Iach, Addysg a Dysgu a Theulu a Pherthyn. Dyfarnwyd cydnabyddiaeth lawn fel Dinas sy'n Dda i Blant yn 2023. Rhoddwyd Cynllun Cynaliadwyedd ar gyfer 2023-26 ar waith, ac mae wedi'i gyflawni dros y 3 blynedd diwethaf. Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar 4 maes blaenoriaeth – **Addysg Hawliau Plant, Cyfranogiad, Lle ac yn Gyfartal ac wedi eu Cynnwys.**

Ym mis Mawrth 2026, cyflwynodd Caerdydd stori o newid, adroddiad gwerthuso ieuenctid, tystiolaeth yn erbyn cynllun cynaliadwyedd 2023-26 i gefnogi'r achos dros gael ei chydnabod unwaith eto, a chynllun cynaliadwyedd ar gyfer y cyfnod 2026-29. Cafodd dogfennau a thystiolaeth eu dilysu a'u hasesu gan y tîm Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant yn UNICEF UK gan ddefnyddio'r fframwaith asesu.

Ar 8 Ebrill 2026 cynhaliwyd diwrnod asesu yn Adeilad Sparc, Prifysgol Caerdydd. Cafwyd cyfres o fyrddau crwn thematig, gan gynnwys sesiwn gyda phlant a phobl ifanc. Hoffai UNICEF UK ddiolch i bawb fu'n rhan o'r broses, yn enwedig i'r plant a'r bobl ifanc.

## Cynnydd ar draws pob un o'r chwe maes blaenoriaeth

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cyngor a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd da ar draws pedwar maes blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys:

**Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant wedi'i ymgorffori fel 'y ffordd mae'r cyngor yn gwneud busnes'**: Mae hawliau plant a dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant yn cael eu prif ffrydio'n fwyfwy wrth ddatblygu polisi, darparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau corfforaethol

**Plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar lywodraethu**: Mae cyfranogiad ieuenctid mewn craffu a chynllunio hirdymor yn cynyddu mewn hyder ac yn dod yn fwy soffistigedig, gyda Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi pobl ifanc i lunio agendâu. Mae mewnbwn i'r Cynllun Datblygu Lleol yn arbennig o arwyddocaol.

**Hyfforddiant hawliau'r gweithlu wedi'i ymgorffori a'i ddefnyddio'n eang**: Mae dysgu hawliau plant yn gysylltiedig â phrosesau perfformiad, gyda lefelau uchel o dderbyn hyfforddiant

**Defnydd arferol cynyddol o Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) ac integreiddio ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb AEGau**: Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredin, wedi'i hintegreiddio i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sydd yn arwydd o wneud penderfyniadau cryfach ar sail hawliau ar draws meysydd polisi amrywiol

**Hawliau mewn addysg:** Mae'r model Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn dangos hawliau plant sy'n fwyfwy presennol mewn sgyrsiau cwricwlwm, arweinyddiaeth a pholisi, gyda chefnogaeth y Cwricwlwm i Gymru a Chynlluniau Gwella Ysgolion

**Newid o brosiectau i fesurau creu lleoedd strwythurol**: Mae gwaith lle yn symud i ffwrdd o fentrau untro tuag at ymgorffori dulliau sy'n dda i blant trwy bolisi cynllunio, canllawiau a ffyrdd o weithio, gan greu sylfeini ar gyfer newid hirdymor parhaus trwy systemau statudol a phroffesiynol.

**Chwarae a phrofiad bywyd wedi'u hintegreiddio i fframweithiau cynllunio**: Mae chwarae, dylunio sy'n dda i blant, a phrofiad bywyd plant/pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio'n fwyfwy i fframweithiau cynllunio strategol ac adfywio, gan gynnwys datblygu mecanweithiau Polisi Chwarae a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

**Tystiolaeth gynnar o welliannau cymdogaeth ymatebol**: Mae gweithgaredd adfywio wedi dechrau trosi adborth plant yn newidiadau lleol gweladwy (e.e. croesfannau, uwchraddio parciau, llwybrau mwy diogel a gwelliannau amgylcheddol)

**Dull gweithredu arloesol o ran materion systemig tegwch rhwng y rhywiau:** Mae ymateb a ddatblygwyd mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc ar niwed ar sail rhywedd yn rhaglen o fyfyrio beirniadol i fechgyn. Mae hyn wedi ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau, ac mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar lefel genedlaethol.

## Argymhellion

Nododd yr asesiad rai argymhellion i'w hystyried gan y bartneriaeth yng ngham nesaf ei datblygiad hawliau plant:

- **Symud o ddatblygu bwriadau i weithredu mesuradwy sy’n cael ei gyflawni ar gyfiawnder ieuenctid plant yn gyntaf ac anghymesuredd hiliol ar draws plismona a chyfiawnder ieuenctid.** Mae Caerdydd wedi dechrau datblygu'r maes gwaith hwn; y cam nesaf yw cryfhau cyflymder ac atebolrwydd trwy nodi gweithredoedd, cyfrifoldebau a mesurau cynnydd clir. Dylai hyn gynnwys ffocws mwy craff ar y ffordd mae anghymesuredd hiliol yn cael ei nodi, ei drin a'i leihau ar draws y llwybr cyfiawnder ieuenctid ac mewn ymarfer plismona o ddydd i ddydd, ynghyd â diogelwch plant yn gyntaf cryfach. Bydd gwaith partneriaeth rhagweithiol rhwng y Cyngor a'r heddlu a phartneriaid cyfiawnder ieuenctid yn hanfodol, a gall dysgu o leoedd lle mae arferion niweidiol wedi cael eu lleihau mewn cyfnod byr o amser (h.y. Manceinion) helpu Caerdydd i droi uchelgais yn newid amlwg.

- **Egluro gwaith llywodraethu'r Cyngor Ieuenctid a'r fforwm ieuenctid fel bod dylanwad plant a phobl ifanc yn gysylltiedig â phenderfyniadau, craffu a chanlyniadau mesuradwy.** Byddai cyfranogiad Caerdydd yn cael ei gryfhau drwy wneud llwybrau penderfyniadau yn gliriach ac yn fwy cyson ar draws strwythurau ieuenctid. Dylai hyn gynnwys diffinio rôl, cylch gorchwyl a sefyllfa llywodraethu'r Cyngor Ieuenctid a fforymau eraill, a nodi sut maen nhw’n ymwneud â'i gilydd ac â strwythurau ffurfiol y cyngor. Bydd trefniadau cliriach ar gyfer sut mae materion yn cael eu huwchgyfeirio, sut mae penderfyniadau'n cael eu llunio, a sut mae adborth yn cael ei ddarparu yn helpu i sicrhau bod cyfranogiad nid yn unig yn weladwy, ond hefyd yn cael ei weld trwy effaith. Bydd datblygu dull mwy systematig o olrhain a chyfathrebu dylanwad yn cryfhau atebolrwydd i blant a phobl ifanc ac yn cefnogi ymgysylltu parhaus.

- **Cryfhau tystiolaeth effaith trwy symud o allbwn i ganlyniadau a newid profiad bywyd, gyda mesurau cymesur a phartneriaid dysgu annibynnol.** Byddai Caerdydd yn elwa o ddull cliriach

- o ddangos a yw gwaith sy'n seiliedig ar hawliau yn newid penderfyniadau, dylunio gwasanaethau a phrofiadau dyddiol plant a phobl ifanc dros amser. Byddai datblygu mesurau canlyniad a dulliau dilysu cryfach, fel arolwg canfyddiad rheolaidd, yn helpu i olrhain cynnydd a nodi lle mae newid yn cael ei deimlo a lle nad yw'n cael ei deimlo. Mae cyfle hefyd i archwilio partneriaeth ymchwil a gwerthuso mwy strwythuredig gyda Phrifysgol Caerdydd, gan ddatblygu cysylltiadau presennol, i gryfhau dylunio gwerthuso, ansawdd data a dysgu a rennir. Gellir cryfhau sicrwydd ansawdd trwy symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth prosesau i asesu dylanwad ac ansawdd, er enghraifft trwy samplu AEHP ac olrhain pa newidiadau a wnaed o ganlyniad. Yn yr un modd, dylai gwerthuso hyfforddiant symud o fonitro ymgymeriad i asesu'r ffordd mae dysgu yn cael ei gymhwyso yn ymarferol a sut mae'n gwella penderfyniadau a chanlyniadau.

- **Cryfhau dolenni adborth ac atebolrwydd fel y gall plant a phobl ifanc weld beth maen nhw'n ei ddweud, beth newidiodd a pham ar draws llwybrau cyfranogiad a chwynion.** Gan adeiladu ar weithgaredd cyfranogiad presennol, dylai Caerdydd wneud y cysylltiad yn weladwy yn gyson rhwng mewnbwn plant a phobl ifanc, penderfyniadau a wneir a chanlyniadau a gyflawnwyd. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori disgwyliadau adborth clir, sy'n dda i blant ar ôl ymgynghoriadau a sicrhau bod mecanweithiau cwynion a gwneud yn iawn yn hygyrch, bod ymddiriedaeth ynddynt a'u bod yn cael eu deall yn ymarferol. Bydd cyfleu effaith mewn fformatiau syml a bod yn dryloyw lle nad yw penderfyniadau yn cyd-fynd â safbwyntiau plant yn cefnogi ymddiriedaeth, yn atgyfnerthu bod cyfranogiad yn ystyrlon, ac yn cryfhau atebolrwydd y system i blant a phobl ifanc.

- **Ymgorffori ymwybyddiaeth o hawliau plant trwy ddatblygiad aelodau etholedig ac uwch arweinwyr, a chryfhau addysg hawliau mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau nad ydynt yn rhai prif ffrwd.** Byddai cam nesaf Caerdydd yn elwa o wneud hyfforddiant hawliau plant yn rhan arferol o sefydlu a datblygiad parhaus ar gyfer aelodau etholedig ac uwch arweinwyr, gan helpu i sicrhau perchnogaeth arweinyddiaeth gyson ac ymarfer gwneud penderfyniadau dros amser. Ynghyd â hyn, mae angen mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn dulliau yn seiliedig ar hawliau ac addysg hawliau i blant hŷn,

- yn enwedig mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau nad ydynt yn rhai prif ffrwd. Bydd cryfhau'r elfennau hyn yn helpu i ymgorffori dealltwriaeth a rennir o hawliau ar draws oedrannau a chyd-destunau, gan gefnogi arferion mwy cyson a phrofiadau tecach i blant a phobl ifanc.

- **Cryfhau cynhwysiant trwy ddefnyddio mewnwelediad wedi'i ddadgyfuno a chroestoriadol i wneud cyfranogiad tecach ac i ddangos atebolrwydd i blant a phobl ifanc o'r mwyafrif byd-eang.** Byddai Caerdydd yn elwa o ddull mwy systematig o nodi profiadau anghyfartal a bylchau mewn cynrychiolaeth, gan ddefnyddio data wedi'i ddadgyfuno ac ystyried cyhoeddi lle bo hynny'n briodol i gryfhau tryloywder ac atebolrwydd. Dylai'r mewnwelediad hwn lywio strategaeth gynhwysiant lymach ar gyfer cyfranogiad, gan sicrhau bod grwpiau â llai o lais, gan gynnwys plant a phobl ifanc niwrowahanol, yn gallu cael mynediad at gyfleoedd a chael dylanwad tebyg. Byddai gwaith pellach gyda phlant a phobl ifanc i ddeall sut byddai profiadau croestoriadol o wahaniaethu yn ffurfio cyfranogiad a sut byddai canlyniadau yn cefnogi gweithredu wedi'i dargedu'n fwy a chamau nesaf cliriach. Bydd cryfhau dealltwriaeth o ganfyddiadau plant a phobl ifanc o asiantaeth a dylanwad, gan gynnwys pa garfannau sydd â llai o hyder, yn helpu'r system i ganolbwyntio cymorth lle mae ei angen fwyaf. Bydd disgwyliadau clir bod cynlluniau gweithredu, gan gynnwys y cynllun cynaliadwyedd, cyrhaeddiad, yn ymgysylltu ac yn atebol i blant a phobl ifanc o'r mwyafrif byd-eang yn helpu i sicrhau bod cynhwysiant yn cael ei weld trwy effaith, nid bwriad yn unig.

## Canlyniad yr asesiad

Ar y cyfan, mae Caerdydd wedi parhau i ddatblygu seilwaith hawliau plant sylweddol, gyda meysydd o arfer rhagorol a phlant a phobl ifanc yn dylanwadu ar lywodraethu craidd, yn enwedig craffu a chynllunio hirdymor. Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau plant bellach wedi'i ymgorffori fel ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud busnes, nid fel prosiect ar wahân. Mae'r Cynllun Cynaliadwyedd nesaf ar gyfer 2026-29 yn parhau â'r ffocws ar Addysg Hawliau Plant, Lle, Cyfranogiad a Chyfartal ac yn cael eu Cynnwys

**Yn seiliedig ar yr ymrwymiadau hyn a'r cynnydd hyd yma, dyfarnwyd statws Dinas sy'n Dda i Blant wedi'i adnewyddu i Gaerdydd ar gyfer y cyfnod 2026-29.**

## Adolygu maes blaenoriaeth

Mae pob un o feysydd blaenoriaeth Caerdydd wedi'u nodi dros y tudalennau canlynol. Mae tabl yn crynhoi detholiad o'r gweithgareddau a'r strategaethau penodol a fabwysiadwyd gan Gaerdydd, y canlyniadau y gwnaethant weithio tuag atynt, a'r dangosyddion a ddewiswyd ganddynt i fesur cynnydd ac effaith.

Mae pob tabl yn cyd-fynd â sylwebaeth ar y cynnydd a aseswyd, gan gynnwys argymhellion ar gyfer datblygu pellach.

Sylwer, yn y tablau rydym weithiau wedi defnyddio'r talfyriadau canlynol oherwydd cyfyngiadau gofod:

- **CYP** - Plant a phobl ifanc
- **HP** - hawliau'r plentyn
- **CRBA** - dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant.

# ADDYSG HAWLIAU PLANT

## Cynnydd

Ar y cyfan, mae ffrwd waith addysg hawliau plant Caerdydd wedi cael ei chyflawni'n sylweddol yn erbyn ei bwriad ar gyfer 2023–26: cynnal a gwella addysg hawliau fel bod plant yn gwybod eu hawliau a bod y rheiny sydd â dyletswyddau wedi'u paratoi ar gyfer eu cynnal. Mae'r sylfeini - dysgu'r gweithlu, arweiniad rheolwyr, seilwaith ysgolion ar raddfa fawr, a mesurau strategol sy'n dod i'r amlwg - yn cyd-fynd â dull sy'n seiliedig ar hawliau. Dangosodd yr asesiad byw newid o weithgaredd sy'n cael ei sbarduno gan hyrwyddwyr i ymgorffori hawliau plant yn strwythurol ar draws systemau addysg a’r gweithlu.

Ynghyd â darparu addysg, mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at fesurau statudol a strategol a all helpu i ymgorffori hawliau plant y tu hwnt i brosiectau unigol. Mae cyfeiriadau at bolisi chwarae yn y Cynllun Datblygu Lleol ac at ganllawiau cynllunio sydd ar ddod yn dangos bod ystyriaethau hawliau plant yn dechrau cysylltu â systemau ehangach sy'n siapio profiadau plant o ddydd i ddydd. Mae dysgu yn cydnabod pwysau a chyfyngiadau—fel amrywioldeb mewn ymgysylltiad ysgol uwchradd a heriau sicrhau presenoldeb mewn hyfforddiant aelodau etholedig. Mae'r tryloywder hwn yn cefnogi hyder bod Caerdydd yn gweithredu fel system ddysgu, sy'n gallu nodi beth sy'n gweithio, ymateb i rwystrau, a chryfhau gweithredu dros amser.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn disgrifio darpariaeth sylweddol seilwaith ledled y ddinas ar gyfer addysg hawliau trwy'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (GYPH). Mae'r model a ddisgrifir yn cynnwys capasiti lleol ar gyfer cyflwyno ac asesu, monitro parhaus, a defnyddio data i gynnal trosolwg o ymgysylltu a dilyniant. Mae'r raddfa a adroddwyd yn sylweddol: mae mwyafrif helaeth o ysgolion yn ymgysylltu, sy'n cynrychioli twf parhaus dros amser ac yn awgrymu bod addysg hawliau wedi dod yn ddull cydnabyddedig sy’n cael cefnogaeth mewn llawer o leoliadau addysg.

Yn bwysig, mae plant a phobl ifanc yn atgyfnerthu gwerth y gwaith hwn. Mae pobl ifanc yn disgrifio addysg hawliau - yn enwedig mewn lleoliadau cynradd - fel un sy’n grymuso ac yn ystyrlon, sydd yn dangos, lle mae hawliau'n cael eu gwneud yn weladwy ac yn berthnasol, gall plant ddatblygu hyder, iaith a gallu i fynegi barn a cheisio cefnogaeth.

Cryfder nodedig yw'r ffordd y mae hawliau plant yn cael eu hymgorffori yn niwylliant y cyngor trwy ddysgu’r gweithlu a disgwyliadau rheoli. Mae cynllun corfforaethol Caerdydd yn cynnwys targed sefydliadol clir ar gyfer hyfforddiant hawliau plant, ac mae'r lefelau cwblhau a adroddwyd yn dangos ymgymeriad cryf ar draws grwpiau staff. Mae darparu hyfforddiant hefyd wedi esblygu mewn ffordd bragmatig: mae tystiolaeth yn dangos model cynyddol hyblyg gyda sesiynau pwrpasol wedi'u teilwra i wahanol gynulleidfaoedd proffesiynol (gan gynnwys deunyddiau a ddatblygwyd ar gyfer rolau penodol fel llywodraethwyr ysgol ac aelodau etholedig), ynghyd â set gynyddol o adnoddau hygyrch i staff sy'n llai tebygol o ddefnyddio cyfrifiadur neu sy'n ffafrio fformatiau amgen. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws ar fynediad teg i ddysgu ac ar roi ffyrdd ymarferol i bobl â dyletswydd i gymhwyso hawliau plant wrth wneud penderfyniadau bob dydd a darparu gwasanaethau.

Byddai'r cam nesaf yn elwa o ffocws craffach ar ddarpariaeth oedran uwchradd ac ar gau'r ddolen rhwng gwaith hawliau mewn ysgolion ac ymarfer partneriaethau ehangach, fel bod plant a phobl ifanc yn profi diwylliant cyson sy'n parchu hawliau ar draws addysg, gwasanaethau a lleoliadau cymunedol.

Mae arwyddion nad yw hyfforddiant aelodau etholedig wedi'i ymgorffori eto ar y lefel a fwriadwyd, gyda phresenoldeb isel a chynllun i ymgorffori hyfforddiant i sefydlu o amgylch cylch etholiad 2027.

# ADDYSG HAWLIAU PLANT

Er bod y cyflwyniad yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am nifer y sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd a'r cynnydd a nodwyd mewn hyder, byddai'n cael ei gryfhau gan adrodd cliriach ar niferoedd y cyfranogwyr a chanfyddiadau gwerthuso, yn ogystal â mynegiant cryfach o’r ffordd
mae diwylliant ysgol sy'n parchu hawliau yn cysylltu â phrofiadau bywyd plant ac yn ymgysylltu â gwasanaethau y tu hwnt i'r ysgol. Mae'r asesiad byw yn tynnu sylw at yr angen i gau'r ddolen dystiolaeth, trwy symud y tu hwnt i gyfraddau cwblhau i dystiolaeth o effaith hyfforddiant ar ddylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

Ar draws y cyfnod, mae Caerdydd wedi gwneud cynnydd clir o ran cryfhau addysg hawliau plant drwy gyfuno newid diwylliant yn y cyngor â mesurau ehangach sy'n seiliedig ar leoedd a all gynnal a gwella effaith dros amser. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos newid tuag at hawliau plant yn cael eu hystyried fel arfer diofyn yn hytrach na dibynnu ar hyrwyddwyr unigol, gyda chefnogaeth dysgu parhaus, addasu, ac asesiad gonest o'r bylchau sy'n weddill.

# ADDYSG HAWLIAU PLANT

| | | |
|---|---|---|
| **Dangosyddion Effaith** | Nifer y strategaethau, mentrau, gwasanaethau a phenderfyniadau sy'n<br><br>defnyddio modiwl AHP 85% o staff wedi cwblhau modiwl HP gorfodol ar-lein | |
| **Canlyniadau** | **Ar draws y ddinas, mae gan blant, pobl ifanc ac oedolion wybodaeth dda am hawliau plant ac mae plant yn cael eu cefnogi'n weithredol i fanteisio ar eu hawliau.** | |
| **Dewis strategaethau** | Sefydlir capasiti mewnol cadarn trwy hyfforddi aelodau o staff fel hyfforddwyr/hyrwyddwyr, gan feithrin cydweithio a phartneriaethau gydag adrannau eraill a sefydliadau allanol, sefydlu mecanweithiau monitro ac adrodd dulliau i olrhain cynnydd.<br><br>Cyflwyno e-ddysgu hawliau plant i 85% o staff y cyngor<br><br>Ymestyn hyfforddiant hawliau plant cymhwysol i adrannau eraill a phartneriaid allanol<br><br>Nodi ac uwchsgilio rhwydwaith o reolwyr<br><br>Datblygu adnoddau a modiwlau pwrpasol<br><br>Cyflwyno rhaglen hyfforddi Aelodau<br><br>Etholedig | Mae gan Gaerdydd ddull gweithredu cynaliadwy o ymgorffori hawliau plant ar draws pob ysgol gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni yn wybodus ac yn hyderus o ran hawliau plant.<br><br>Byddwn yn cefnogi ysgolion i ymgysylltu â Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF a gwneud cynnydd trwyddi<br><br>Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno dull cynaliadwy o ymdrin â Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yng Nghaerdydd |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRBA** | Urddas | Cyfranogiad | Lles Pennaf | Bywyd, Goroesi, Datblygiad | Cyd-gysylltedd a Chyfanrwydd | Peidio â Gwahaniaethu | Tryloywder ac Atebolrwydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Menter Fyd-eang Dinasoedd sy'n Dda i Blant Meini Prawf Gofynnol** | **Tegwch a pheidio â gwahaniaethu** | **Data** | **Cyfranogiad** |

# LLE

## Cynnydd

Mae cyflwyniad Caerdydd yn adrodd stori glir am ddinas sy'n symud o weithgarwch ymgysylltu untro i ymgorffori hawliau plant yn gynnar yn y dulliau bob dydd o gynllunio a chreu lleoedd.  Ar draws 2023–26, mae'r pwyslais wedi bod ar adeiladu'r sylfeini sy'n gwneud newid sy'n dda i blant yn fwy arferol ac yn fwy gwydn: fframweithiau a rennir, mesurau polisi, llwybrau tystiolaeth, ac offer ymarferol sy'n helpu timau i drosi profiad bywyd plant a phobl ifanc yn benderfyniadau am gymdogaethau, parciau a datblygiad. Yn yr asesiad byw daethom yn ymwybodol o allu a hyder cynyddol y gweithlu, gyda swyddogion yn cael eu disgrifio'n fwy dewr, yn fwy cydweithredol ac yn fwy ymwybodol o hawliau. Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau plant, dylunio sy'n dda i blant a phrofiad bywyd plant a phobl ifanc yn cael eu hintegreiddio fwyfwy i fframweithiau cynllunio strategol ac adfywio.

Yn ganolog i'r gwaith hwn mae'r Fframwaith Cyfleoedd Chwarae, sy'n darparu llwybr clir o dystiolaeth i fframwaith, trwy ymarfer, ac yn y pen draw i effaith. Mae wedi'i drefnu o amgylch tair colofn atgyfnerthu: Newid Polisi a System (gan gynnwys Polisi Chwarae, Gweledigaeth ar gyfer Chwarae, ac asesiadau digonolrwydd chwarae); Deall Bywydau Plant (gan gynnwys pecynnau cymorth mapio digidol a chymunedol, Cynlluniau Cynefin Ardal Leol, gweithdai'r Cynllun Datblygu Lleol ac ymchwil wedi'i thargedu fel HerParks); a Chymhwyso Dylunio sy'n Dda i Blant (gan gynnwys peilot Trem y Môr, hyfforddiant arweinyddiaeth Urban95, ac awgrymiadau dylunio a rhestrau gwirio). Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn dangos ymrwymiad cryf i adeiladu system gydlynol sy'n gallu deall safbwyntiau plant, profi egwyddorion dylunio sy'n dda i blant mewn lleoliadau go iawn, ac ymgorffori dysgu yn ôl i brosesau cynllunio ffurfiol.

Mae gweithgarwch cyfranogiad yn eang a thrwy amrywiaeth o gyfleoedd. Cyfrannodd plant a phobl ifanc trwy weithdai mewn ysgolion, ymgysylltu safle-benodol mewn parciau a chymdogaethau, ymgysylltu digidol, a strwythurau cyfranogiad presennol.

Mae'r cyflwyniad yn adrodd bod oddeutu 700 o blant a phobl ifanc yn ymwneud â gweithgarwch mapio, ochr yn ochr â chyfranogiad wedi'i dargedu’n fwy—dros 50 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdai'r Cynllun Datblygu Lleol ar adeg dyngedfennol o ran datblygu polisi. Mae'r cymysgedd hwn o ymgysylltu eang a mewnbwn â ffocws yn awgrymu dull sydd yn ceisio bod yn gynrychioliadol ac yn ymarferol: casglu mewnwelediad ar raddfa fawr i brofiad bob dydd tra hefyd yn creu llwybrau i bobl ifanc lunio sgyrsiau polisi statudol. Mae'r CDLl yn creu cyfle sylweddol ar gyfer dechrau newydd sy'n integreiddio egwyddorion sy'n dda i blant.

Erbyn 2025, dechreuodd yr ymdrechion cynllunio hyn sy'n seiliedig ar hawliau droi’n welliannau diriaethol, lleol. Mae'r Tîm Adfywio Cymdogaethau wedi cyflwyno newidiadau ar raddfa fach ond ystyrlon - mannau croesi newydd, uwchraddio parciau, llwybrau mwy diogel a gwelliannau amgylcheddol wedi'u dylanwadu'n lleol - sy'n gysylltiedig yn benodol ag adborth plant. Er eu bod yn gynnar, mae'r ymyriadau hyn yn bwysig oherwydd eu bod yn dangos ymateboldeb: mae'r system yn dechrau gweithredu mewn amser real ar brofiad bywyd plant yn hytrach na thrin cyfranogiad fel ymarfer annibynnol. Ar yr un pryd, mae cynllun peilot Trem y Môr wedi gweithredu fel mainc arbrofi ar gyfer egwyddorion cynllunio sy'n dda i blant, gan gynhyrchu gwersi ymarferol a all gefnogi mabwysiadu ehangach wrth i'r ddinas symud tuag at ffurfioli ei Pholisi Chwarae a'i Chanllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n dod i'r amlwg wedi'u lleoli fel dull o integreiddio blaenoriaethau plant a phobl ifanc â gofynion cynllunio statudol—cam pwysig os yw bwriad sy'n dda i blant i gael ei gynnal trwy gylchoedd cynllunio a phenderfyniadau datblygu arferol.

Mae'r cryfderau yn y gwaith yn fwyaf amlwg yn y gofod 'sylfeini system' hwn. Mae llinell drwodd gyson sy'n dangos ymgysylltiad proffesiynol â phlant a phobl ifanc, a newid clir tuag at fesurau strwythurol (mecanweithiau polisi, canllawiau a thystiolaeth) sy'n cyd-fynd â dull sy'n seiliedig ar hawliau plant ac uchelgeisiau tymor hwy ar gyfer lle.

# LLE

Mae Cynlluniau Cynefin Ardal Leol yn benodol, yn cynnig mewnwelediad gofodol penodol i'r hyn y mae plant yn ei brofi a pha newidiadau maen nhw eu heisiau, ac mae'r cyflwyniad yn nodi bod y cynlluniau hyn wedi cael eu rhannu gydag aelodau etholedig a rhanddeiliaid, gyda'r bwriad o ddylanwadu ar flaenoriaethau adfywio a phenderfyniadau buddsoddi. Mae gwaith wedi'i dargedu gyda merched yn eu harddegau wedi cael ei wneud hefyd fel ffordd o sicrhau nad yw diogelwch a phrofiad rhywedd yn cael eu colli o fewn gweithgarwch ymgysylltu ehangach.

Fodd bynnag, mae'r cyflwyniad hefyd yn tynnu sylw at ble mae stori Caerdydd yn dal i ddod i'r amlwg—a'r hyn fydd yn cryfhau gwaith fwyaf yn y dyfodol. Mae pobl ifanc yn parhau i adrodd bod rhai materion sy'n gysylltiedig â lle yn parhau i fod yn amlwg mewn bywyd bob dydd, gan gynnwys pryderon diogelwch, croesfannau a goleuadau, ac argaeledd mannau sy’n wirioneddol addas i bobl ifanc yn eu harddegau. Mae hyn yn awgrymu bod cyfnod 2023–26 wedi cyflawni'n gryf o ran galluogi gwaith, ond dim ond yn rhannol wedi gwireddu'r gwelliannau 'sy’n cael eu teimlo' a fwriadwyd, y byddai plant a phobl ifanc yn sylwi arnynt yn eu cymdogaethau - gan adlewyrchu'r amseroedd arweiniol hirach sy'n gysylltiedig â mabwysiadu polisi, rhaglenni adfywio a'r amgylchedd adeiledig.

Mewn sawl ardal, byddai'n bosibl cynyddu gweledededd achosiaeth ac atebolrwydd: er enghraifft, dealltwriaeth fwy eglur o’r ffordd mae mewnbwn plant mewn Cynlluniau Cynefin Ardal Leol wedi newid penderfyniadau penodol; disgrifiad llawnach o ddulliau a chanlyniadau ymchwil merched yn eu harddegau (gan gynnwys a oedd pobl ifanc wedi helpu i greu'r cwestiynau); a dolen adborth gryfach sy'n dangos sut cafodd y rhai a gyfrannodd eu diweddaru ar yr hyn a newidiodd o ganlyniad.

Byddai mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn - ynghyd â chyflawni newid amlwg mewn cymdogaeth ac olrhain cynnydd cyson dros amser - yn helpu Caerdydd i symud o sylfeini cadarn i brofiad bywyd sydd yn amlwg yn well, ac yn darparu naratif cadarn o ganlyniadau i gyd-fynd ag uchelgais ei fframwaith cynllunio sy'n dda i blant.

# LLE

| | |
|---|---|
| **Dangosyddion Effaith** | Mabwysiadwyd Polisi Chwarae a CCA yn ffurfiol i'r Cynllun Datblygu Lleol a'u cymhwyso mewn penderfyniadau cynllunio<br><br>Defnydd systematig o AEHP ym mhob cynnig datblygu mawr (e.e., ≥10 AEHP wedi'u cofnodi a'u hadolygu). |
| **Canlyniadau** | **Mae cynllunio a dylunio trefol yng Nghaerdydd yn defnyddio profiad bywyd plant a dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn gyson i greu cymdogaethau diogel, cynhwysol a chwareus, fel y gall plant symud, cwrdd, a chwarae ar draws ein dinas.** |
| **Dewis strategaethau** | Mae 'Polisi Chwarae' newydd yn cael ei fabwysiadu yn y Cynllun Datblygu Lleol<br>• Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu<br>• Datblygu'r strategaeth<br>• gweithredu cynllun cyflawni a monitro ac adolygu<br><br>Defnyddir ymgynghori ac ymgysylltu yn systematig i lywio cynllunio a dylunio trefol mewn ardaloedd lleol.<br><br>Mae plant a phobl ifanc yn deall sut mae eu safbwyntiau wedi llywio datblygiadau<br><br>Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer 'Polisi Chwarae' yn cael eu mabwysiadu i'r Cynllun Datblygu Lleol. |

| CRBA | Urddas | Cyfranogiad | Lles Pennaf | Bywyd, Goroesi, Datblygiad | Cyd-gysylltedd a Chyfanrwydd | Peidio â Gwahaniaethu | Tryloywder ac Atebolrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Menter Fyd-eang Dinasoedd sy'n Dda i Blant Meini Prawf Gofynnol | Tegwch a pheidio â gwahaniaethu | Data | Cyfranogiad |
|---|---|---|---|

# CYFRANOGIAD

## Cynnydd

Mae cyflwyniad Cydnabyddiaeth Caerdydd ar gyfer y ffrwd waith Cyfranogiad yn nodi dull cryf a chynyddol systemaidd o ymgorffori dylanwad plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau. Mae'r cynnydd wedi'i seilio ar ddatblygu Fframwaith Cyfranogiad, wedi'i lywio gan Adolygiad Cyfranogiad ledled gwasanaethau’r cyngor, ysgolion a sefydliadau partner. Mae'r cyfuniad hwn o fwriad strategol a hunanasesu myfyriol yn darparu llwyfan credadwy ar gyfer newid diwylliant hirdymor, gan helpu Caerdydd i symud tuag at gyfranogiad mwy arferol, sy'n seiliedig ar hawliau ar draws systemau lleol.

Cryfder allweddol yw ehangder y llwybrau cyfranogi a ddisgrifir, ochr yn ochr â thystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi mynediad uniongyrchol at wneuthurwyr penderfyniadau. Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at gefnogaeth i fforwm ieuenctid ledled y ddinas, gan gynnwys cyfleoedd i bobl ifanc gynllunio a hwyluso cyfarfodydd, ymgysylltu ag arbenigwyr ac asiantaethau partner, a chyfrannu at drafodaethau lleol a chenedlaethol. Mae cynrychiolaeth pobl ifanc ar grwpiau strategol a strwythurau craffu ymhellach yn arwydd o gydnabyddiaeth gynyddol o blant fel rhanddeiliaid mewn llywodraethu, a pharodrwydd cynyddol i greu lle i lais ieuenctid o fewn amgylcheddau gwneud penderfyniadau ffurfiol.

Neges gyson gan blant a phobl ifanc yn yr asesiad byw yw bod Caerdydd wedi datblygu strwythurau cryf ac adnoddau da ar gyfer cyfranogiad ieuenctid. Disgrifiodd pobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau ar draws meysydd gan gynnwys addysg, cynllunio, cyfiawnder ieuenctid, trafnidiaeth a chwarae. Tynnwyd sylw at y tocyn bws £1 fel newid gweladwy ac ymarferol a ddylanwadwyd gan blant a phobl ifanc, ochr yn ochr â datblygu Polisi Chwarae annibynnol, y ddau yn cael eu hystyried yn gyflawniadau diriaethol. Roedd pobl ifanc hefyd yn teimlo bod Caerdydd wedi gwneud ymdrechion i ddod yn decach ac yn fwy cynhwysol.

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn cael ei chryfhau gan offer ymarferol sydd wedi'u bwriadu i gefnogi cysondeb a dysgu sefydliadol. Mae creu setiau data ac adroddiadau canolog (ystorfa

a rennir) yn ddarn nodedig o seilwaith system, sy'n helpu partneriaid i ddefnyddio mewnwelediad presennol yn hytrach na gofyn dro ar ôl tro i'r un grwpiau o blant am fewnbwn. Mae hyrwyddo a defnyddio data Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (RhYIY) yn weithredol hefyd yn dangos ymrwymiad sy'n dod i'r amlwg i ddefnyddio mewnwelediad ar lefel poblogaeth i lywio polisi a datblygu gwasanaethau, nodwedd bwysig o ddull cynaliadwy sy'n seiliedig ar hawliau'r plentyn.

Mae'r cyflwyniad yn cynnwys enghreifftiau pendant o gyfranogiad sy'n ffurfio canlyniadau. Disgrifir plant a phobl ifanc fel rhai sy'n dylanwadu ar ddatblygiad Strategaeth Cynhwysiant Addysg Caerdydd, gyda phwyslais ar sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan benderfyniadau polisi yn cael cyfleoedd ystyrlon i ffurfio blaenoriaethau. Mae cynnwys pecyn cymorth gweithredu cymdeithasol dan 11 oed yn ddangosydd cadarnhaol arall o fwriad i ehangu cyfranogiad ar draws grwpiau oedran, gan gefnogi plant iau i weithredu ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac atgyfnerthu na ddylai cyfranogiad fod yn gyfyngedig i bobl ifanc hŷn neu'r rhai sydd eisoes yn hyderus mewn mannau dinesig.

Ar yr un pryd, mae'r cyflwyniad yn glir nad yw'r arfer yn gyson eto. Yn fwyaf nodedig, mae tystiolaeth ieuenctid yn pwyntio at ddolen adborth anwastad 'dwedoch chi / gwnaethon ni', gyda phobl ifanc yn disgrifio adborth yn hwyr, yn aneglur, neu'n absennol. Mae hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn ffurfio a yw cyfranogiad yn cael ei brofi fel rhywbeth dylanwadol neu symbolaidd, ac mae'n cynrychioli'r bwlch cliriaf yn erbyn yr uchelgais i gryfhau atebolrwydd a thryloywder. Mae pobl ifanc hefyd yn awgrymu y gellir canolbwyntio cyfleoedd ymhlith y rhai sydd eisoes wedi ymgysylltu, gan danlinellu pwysigrwydd ehangu cyrhaeddiad i grwpiau â llai o lais ac ar draws ystod ehangach o leoliadau. Mae gan rai plant a phobl ifanc lawer mwy o fynediad, dylanwad a chyfleoedd nag eraill, ac nid yw newid bob amser yn cyrraedd pob grŵp yn gyfartal. Codwyd pryderon arbennig am brofiadau o wahaniaethu a chael eu hanwybyddu, yn enwedig ymhlith pobl ifanc niwrowahanol, ochr yn ochr â'r risg y gall dulliau wedi'u targedu eithrio grwpiau eraill yn anfwriadol

# CYFRANOGIAD

Mae'r Adolygiad Cyfranogiad yn darparu map ffordd ymarferol i fynd i'r afael â'r materion hyn.
Mae'r argymhellion yn cynnwys cryfhau ymwybyddiaeth a gweithredu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru drwy hyfforddiant a chanllawiau hygyrch; cefnogi sefydliadau i fabwysiadu polisïau cyfranogiad clir; gwella adborth trwy ddulliau creadigol a log cyfranogiad a rennir; ehangu cynhwysiant trwy gyfleoedd mwy hygyrch i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli; ac adeiladu rhwydwaith ledled y ddinas a hyb ar-lein i rannu dysgu a hyrwyddo arfer da. Mae'r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at werth dathlu cyfranogiad trwy gyfathrebu a digwyddiadau blynyddol, gan helpu i gynnal momentwm ac atgyfnerthu cyfranogiad fel busnes craidd ar draws partneriaid.

Ynghyd â mecanweithiau cyfranogi, mae'r cyflwyniad yn cynnwys astudiaeth achos sy'n seiliedig ar ymarfer sy'n dangos sut y gall dulliau sy'n canolbwyntio ar berthynas gryfhau canlyniadau plant. Mae'r enghraifft o Ganllawiau Rhyngweithio Fideo (VIG) o fewn gwasanaethau rhianta yn disgrifio gwaith myfyriol, sy'n seiliedig ar gryfderau gyda rhieni a babanod, gan gefnogi ymlyniad diogel a hyder rhieni—yn arbennig o berthnasol yn y 1,000 diwrnod cyntaf.

Er bod hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth Cyfranogiad yn hytrach na thystiolaeth uniongyrchol o gyfranogiad dinesig, mae'n dangos yn ddefnyddiol sut y gellir ymgorffori ymarfer myfyriol, perthynol mewn gwasanaethau i wella profiad bywyd plant a chynyddu ymatebolrwydd i blant a theuluoedd.

Ar y cyfan, mae Caerdydd yn dangos cynnydd cryf o ran datblygu seilwaith cyfranogiad, gyda thystiolaeth gredadwy o ymrwymiad strategol, ymgysylltu â phartneriaeth, ac enghreifftiau o blant a phobl ifanc yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Bydd y cam nesaf yn elwa o gryfhau'r mecanweithiau atebolrwydd sy'n troi cyfranogiad yn newid gweladwy: dolen adborth gyson, llwybrau llywodraethu clir ar gyfer Cyngor Ieuenctid Caerdydd, ac adrodd mwy systematig ar ddylanwad a chanlyniadau. Gyda ffocws parhaus ar gynhwysiant—sicrhau bod cyfleoedd yn cyrraedd plant a phobl ifanc â llai o lais—mae Caerdydd mewn sefyllfa dda i ddyfnhau effaith a chynnal
dull sy'n seiliedig ar hawliau o gyfranogi trwy'r cyfnod Cydnabyddiaeth nesaf a thu hwnt iddo.

# CYFRANOGIAD

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Effaith** | % y staff sy'n dweud eu bod yn hyderus ac yn fedrus wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed | | | | | | |
| **Canlyniadau** | **Mae safbwyntiau plant a phobl ifanc a data ansoddol ategol am brofiadau plant a phobl ifanc yn cael eu defnyddio'n gyson i lywio'r gwaith o ddylunio, datblygu a gwerthuso polisïau, gwasanaethau a rhaglenni** | | | | | | |
| **Dewis strategaethau** | Darparu cyfleoedd gydag ansawdd uchel wedi'i sicrhau ar gyfer plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau gan gynnwys plant iau,<br>Ymgorffori Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol<br>ymhellach, Datblygu dangosfwrdd ar gyfer data wedi'i<br>ddadgyfuno<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Adolygu Cyfranogiad i gyflawni argymhellion<br>Mae'r gweithlu yn hyderus ac yn fedrus wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc<br>i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed AEHP yn digwydd yn rheolaidd i<br>nodi'r angen i ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc<br>Mae dulliau wedi'u hymgorffori i wrando ar blant a phobl ifanc i lywio dyluniad gwasanaeth<br>a gwneud penderfyniadau Mae oedolion yn gofyn am gymorth a chyngor yn rheolaidd<br>ynghylch AHP / cyfranogiad | | | | | | |
| **CRBA** | Urddas | Cyfranogiad | Lles Pennaf | Bywyd, Goroesi, Datblygiad | Cyd-gysylltedd a Chyfanrwydd | Peidio â Gwahaniaethu | Tryloywder ac Atebolrwydd |
| **Menter Fyd-eang Dinasoedd sy'n Dda i Blant Meini Prawf Gofynnol** | **Tegwch a pheidio â gwahaniaethu** | **Data** | **Cyfranogiad** | | | | |

## Cynnydd

Mae cyflwyniad Cydnabyddiaeth Caerdydd o dan y flaenoriaeth Cyfartal ac yn cael eu cynnwys yn cyflwyno rhaglen waith sydd â’r nod o wneud peidio â gwahaniaethu yn brawf cyflawni ymarferol ar gyfer gwasanaethau a systemau'r ddinas. Mae'r dystiolaeth yn dangos ffocws strategol ar fynd i'r afael ag anghymesuredd canlyniadau (gan gynnwys mewn cyfiawnder ieuenctid), gwella cynhwysiant, a chryfhau arweinyddiaeth a data fel bod plant a phobl ifanc sy'n wynebu gwahaniaethu yn profi mynediad a chanlyniadau gwell. Gyda'i gilydd, mae'r deunydd yn adlewyrchu cyflwyniad ystyrlon ar y gweill, gyda llwybr clir o brofiad bywyd i weithredu a model sy'n dod i'r amlwg sy'n ceisio trosi hawliau yn brofiadau bob dydd ar draws ysgolion, cymunedau a gwasanaethau.

Elfen allweddol o'r cyflwyniad yw ffrwd waith tegwch rhwng y rhywiau Caerdydd, sy'n gosod gwaith gyda bechgyn a dynion ifanc yn ganolog i wella diogelwch, lles a chynhwysiant i bob plentyn.
Mae gwrando cynnar gyda merched a menywod ifanc yn tynnu sylw at y ffaith bod cynnydd ar degwch rhwng y rhywiau yn gofyn am ymgysylltu â systemau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion a'r normau niweidiol sy'n ffurfio ymddygiad, perthnasoedd a diwylliant ar-lein. Mae ymateb Caerdydd yn cynnwys cymysgedd o godi ymwybyddiaeth, deialog a gweithgarwch cyfranogol parhaus, gan gyrraedd 1,611 o blant a phobl ifanc i gyd. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag ysgolion ar raddfa fawr gyda 1,542 o fechgyn trwy sesiynau siaradwyr; lansiad dielw newydd a ymgysylltodd â 53 o bobl ifanc i lunio cyfeiriad y dyfodol trwy brofiad bywyd; ac a grŵp bechgyn am bythefnos dros yr haf, sy'n cynnwys 16 o bobl ifanc i gefnogi myfyrio dyfnach, llythrennedd emosiynol a thrafodaeth barhaus. Ynghyd â hyn, mae datblygu'r gweithlu wedi bod trwy adnodd dysgu gyda'r nod o gryfhau cefnogaeth i blant iau sy'n agored i drais domestig, gan adlewyrchu bwriad i newid ymarfer yn ogystal â darparu ymyriadau uniongyrchol.

Ar draws y dystiolaeth, mae Caerdydd yn dangos cylch credadwy o 'wrando-dylunio-cyflawni'. Mae tair astudiaeth achos fer yn dangos mentrau sy'n cael eu ffurfio gan yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc eu bod eu hangen: adborth gwasanaeth ysgol sy'n llywio peilot grŵp cymorth i fechgyn; diwrnod cyd-ddylunio ledled y ddinas sy'n pennu natur grwpiau a sut y dylid diffinio llwyddiant; ac adnodd dysgu proffesiynol wedi ei ddatblygu mewn ymateb i fechgyn sydd eisiau mwy o sesiynau a chefnogaeth. Mae'r dull hwn yn cael ei atgyfnerthu gan y dulliau ymgysylltu amrywiol a ddisgrifir (sesiynau ysgol, trafodaeth hwyluso, myfyrio creadigol, mesurau lles a gweithgarwch cyd-ddylunio pwrpasol), gyda dyfyniadau cyfranogwyr yn nodi potensial i'r ymyriadau hyn gefnogi llythrennedd emosiynol gwell a hunaniaethau iachach. Mae'r gwaith hefyd yn dangos arwyddion cynnar o gynaliadwyedd: datblygu model grŵp bechgyn ledled y ddinas, cymunedau ymarfer misol, pecyn cymorth a llyfrgell adnoddau. Mae'r gwaith hwn yn amlwg yn casglu momentwm, ac mae yn y camau cynnar o ddylanwadu ar ddull cenedlaethol.

Yn yr asesiad byw, clywsom am dri darn allweddol arall o waith. Mae amrywiaeth o fesurau yn digwydd ym maes Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys cynyddu hyder ymarferwyr wrth drafod treftadaeth a phrofiad bywyd gyda phobl ifanc, monitro data a thrafodaethau manwl thematig sy'n llywio prosesau llywodraethu, a chyfranogiad plant a phobl ifanc mewn adolygu polisi amrywiaeth. Amlinellwyd ymrwymiad Caerdydd i ddod yn Ddinas sy’n Deall Niwrowahaniaeth, gyda'r gwaith mewn cam cynnar. Rhaglen allgymorth 12 wythnos Take Your Place gyda phobl ifanc dosbarth gweithiol yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau a phŵer.

Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau’r dystiolaeth o effaith a thegwch. Er bod gwahaniaeth rhwng y rhywiau wedi'i fynegi'n glir, mae defnydd cyfyngedig o ddata wedi'i ddadgyfuno i archwilio sut mae profiadau o niwed a mynediad yn amrywio yn ôl nodweddion eraill (er enghraifft ethnigrwydd, anabledd neu

anfantais sy'n gorgyffwrdd), neu i nodi carfannau â risg uwch. Mae'r Crynodeb Ieuenctid hefyd yn tynnu sylw at thema barhaus profiad anwastad - lle gall hawliau a chynhwysiant ddibynnu ar gyd-destun, lleoliad neu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael - gan awgrymu nad yw’r teimlad bod mentrau yn gyffredinol ar draws y ddinas yn gyson eto.

# CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

Byddai Caerdydd yn elwa o gryfhau dangosyddion canlyniadau a mesurau dilysu dros amser, egluro sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori mewn systemau a diwylliannau gwaith (yn enwedig mewn gwaith anghymesuredd cyfiawnder ieuenctid), a dangos sut mae dulliau cyfathrebu ac atebolrwydd yn sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad dibynadwy at ddarpariaeth. Mae'r ffrydiau gwaith ychwanegol y cyfeirir atyn nhw - meithrin gallu arweinyddiaeth ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u tangynrychioli, cyfraniad lleol i'r peilot gostyngiad teithio ar fysus cenedlaethol, a chyllidebu cyfranogol trwy Our City, Our Say - yn darparu darlun ehangach o agenda cynhwysiant sy'n ymarferol ac yn gyfranogol, ac maen nhw’n cynnig llwyfan cryf ar gyfer y cam nesaf o gyflawni cyson, sy'n seiliedig ar ddata

# CYFARTAL AC YN CAEL EU CYNNWYS

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Effaith** | Lleihau anghydraddoldebau rhwng dynion a menywod.<br><br>Gwella bywydau merched a menywod ifanc drwy greu amgylcheddau trefol mwy cynhwysol. | Tipyn o dystiolaeth o lai o anghyfartaledd, canlyniadau gwell ac ymyriadau gan ddefnyddio data a<br><br>chanfyddiadau ansoddol | Amserlen wedi'i chyhoeddi ar gyfer gweithredu'r Cynllun Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd yn amodol ar gyllid a chymeradwyaeth<br><br>Nifer y plant a'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw |
| **Canlyniadau** | **Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei drin ag urddas a pharch heb wahaniaethu** | | |
| **Dewis strategaethau** | Cynllun cyflawni Cyfartal ac yn Cael eu Cynnwys<br><br>Mae Caerdydd yn gweld gostyngiad mewn anghydraddoldebau a amlygwyd ym mlwyddyn 1 trwy gam adolygu a gwerthuso cadarn gan gynnwys gwaith gyda phlant a phobl ifanc.<br><br>Datblygu gwaith pellach i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a wynebir gan blant a phobl ifanc i'w gynnwys yn y cynllun ymgysylltu | Polisi a Chynllun Gweithredu Anghymesuredd Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd (diweddarwyd Gorffennaf 2023)<br><br>Proffilio'n barhaus llwythi achos i fonitro ethnigrwydd a chanlyniadau yn erbyn gwaelodlin Blwyddyn 0.<br><br>Parhau i weithredu cynllun gweithgarwch.<br><br>Ffocws mwy cyson ar anghymesuredd mewn gwaith achos ar draws y gwasanaeth a thystiolaeth o waith wedi'i wneud gyda phlant.<br><br>Mae gwella ac adolygu parhaus yn rhan annatod o'r diwylliant darparu gwasanaethau. | Gwelliannau trafnidiaeth gan gynnwys ystyried teithio am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus i blant a phobl ifanc<br><br>Ymgynghoriad ar ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth ffyrdd integredig gan gynnwys cynllun Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd a'r gwelliannau trafnidiaeth posibl y gallai eu hariannu gan gynnwys fforddiadwyedd i blant a phobl ifanc<br><br>Paratoi, cynllunio a gweithredu cynllun gostyngiad teithio ar fysus ar gyfer plant 5-21 oed. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRBA** | Urddas | Cyfranogiad | Lles Pennaf | Bywyd, Goroesi, Datblygiad | Cyd-gysylltedd a Chyfanrwydd | Peidio â Gwahaniaethu | Tryloywder ac Atebolrwydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Menter Fyd-eang Dinasoedd sy'n Dda i Blant Meini Prawf Gofynnol** | **Tegwch a pheidio â gwahaniaethu** | **Data** | **Cyfranogiad** |

Rhan o Fenter Fyd-eang UNICEF

Child Friendly Cities Initiative

Child Friendly Cities & Communities

UNITED KINGDOM

unicef



**unicef.uk/cfc**

**T:** 020 7017

1763
**E:** cfc@unicef.org.uk

Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar gyfer UNICEF
(UNICEF UK), Elusen Gofrestredig Rhif 1072612
(Cymru a Lloegr), SC043677 (Yr Alban).